CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 17 Mai 2022 am 7 yn yr hwyr a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr		
YN BRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Llŷr Evans	Iwan Huws	
Dafydd Huws	Cynog Prys	
Iestyn Harris	Emyr Gareth	
1.0	**GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL**	
1.1	Agorwyd y cyfarfod gan y Clerc gan egluro bod angen i'r cynghorwyr lenwi ffurflen datganiad swydd a chwblhau'r gofrestr buddiannau. Cwblhawyd hyn.	
2.0	**ETHOL CADEIRYDD**	
	Enwebwyd y Cynghorydd Iwan Huws fel Cadeirydd gan y Cynghorydd Daniel Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Eifion Williams. Ni chafwyd enwebiad arall felly cyhoeddwyd Iwan Huws fel Cadeirydd. Etholwyd Iwan Huws yn Gadeirydd. Cyflwynwyd mesur newydd fel Rheol Sefydlog llynedd sef bod cyfnod Cadeirydd yn 5 mlynedd a bydd Cadeirydd yn cael ei ethol am 5 myned yn olynol; mae'r Cynghorydd wedi bod yn Gadeirydd am 3 blynedd hyd yma felly mae ganddo ddwy flynedd yn weddill.	
3.0	**YMDDIHEURIADAU**	
3.1	Cadeirydd newydd yn llywyddu - Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan Iestyn Harris.	
4.0	**CYFRANOGIAD GAN Y CYHOEDD**	
	Ni chafwyd cwestiwn oddi wrth y llawr nac ychwaith yn rhithiol.	
5.0	**ETHOL IS-GADEIRYDD**	
	Enwebwyd y Cynghorydd Eifion Williams fel Is-gadeirydd gan Dafydd Huws ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Cynog Prys. Nid oedd enwebiad arall. Etholwyd y Cynghorydd Eifion Williams fel Is-gadeirydd.	
6.0	**ANERCHIAD Y CYN-GADEIRYDD**	
	Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn braf i gyfarfod wyneb yn wyneb eto ar ôl dwy flynedd o gyfarfod yn rhithiol. Roedd y Cyngor yn gallu sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn gallu cael ei gynnig ar gyfer y cyfarfod hwn a'r cyfarfod misol i'w ddilyn gogyfer cyhoedd oedd eisiau cyfrannu. Diolchodd y Cadeirydd Iwan Hughes i'r Cynghorwyr am ymddiried yno llynedd a'u parodrwydd i wneud hynny eto. Cyfeiriodd bod 5 sedd yn wag ar y Cyngor a braf fyddai os byddai'r seddau yn cael eu llenwi gan ferched.	
7.0	**APWYNTIO CYNRYCHIOLWYR**	
7.1	**Llywodraethwyr yr Ysgol** - roedd Iestyn Harris wedi ymddiheuro ond hefyd wedi anfon at y Cyngor i ddweud y byddai fod yn fodlon i fod yn llywodraethwr a hefyd i fod ar yr un pwyllgorau. - Apwyntiwyd ef fel Llywodraethwr.	

7.2	**Clwb Pêl Droed Ieuenctid** - etholwyd Llŷr Evans fel cynrychiolydd.	
7.3	**Unllais Cymru** - Cynrychiolir y Cyngor ar Unllais Cymru fel bo angen.	
8.0	**ETHOL AELODAU A'R PWYLLGORAU**	
8.1	Trafodwyd y mater o nifer o bwyllgorau oedd yn bodoli a phenderfynwyd byddai'r pwyllgorau yn cael eu cyfuno.	
8.2	**Cyllid , Cyflogaeth, pholisïau a gwefan -** Iwan Huws, Dan Williams, Cynog Prys ac Iestyn Harris.	
8.3	**Asedau** (yn cynnwys Safle Moria, Mynwent, Maes Parcio, Cysgodfannau a Meinciau) - Eifion Williams, Emyr Gareth, Dafydd Huws	
8.4	**Llwybrau Cyhoeddus, Lon Las a Phriffyrdd -** Llŷr Evans, Dafydd Huws ac Emyr Gareth	
8.5	**Y Neuadd Goffa a'r Cloc -** Daniel Williams, Eifion Williams, Llŷr Evans a Cynog Prys.	
9.0	**PENDERFYNU AR NOSON A DYDDIADAU CYFARFODYDD MISOL Y CYNGOR**	
	Penderfynwyd parhau a'r trefniad cyfarfod misol presennol gyda gwyliau ym Mis Awst.	
10.0	**SEDDI GWAG**	
	Mae 5 sedd wag yn bodoli ar y Cyngor. Mae rhybudd i gyfethol wedi eu gosod ar wefan a thudalen Facebook y Cyngor. Gobeithir am enwau a cheisiadau erbyn y diwrnod olaf yn y mis; os daw enwau bydd modd eu cyfethol yng nghyfarfod misol mis Mehefin.	
11.0	**ARCHWILIWR MEWNOL**	
	Cadarnhawyd bod Eluned Fôn Jones o Gyngor Gwynedd wedi ei hapwyntio fel archwiliwr mewnol. Bydd llythyr apwyntiad gyda manylder yr hyn sydd ei angen yn cael ei anfon ati.	
12.0	**ADRODDIAD CYLLID**	
12.1	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2021 - 31/03/2022 gan y Swyddog Ariannol.	
13.0	**POLISÏAU'R CYNGOR**	
	Fe wnaethpwyd newidiadau i'r canlynol a'u	
13.1	Rheoli Risg	
13.2	Rheolau Sefydlog	
13.3	Rheoliadau Ariannol	
13.4	Rheolaeth Mewnol (llawlyfr)	
13.5	Polisi Amgylcheddol	
13.6	Polisi Diogelu Gwybodaeth	
13.7	Polisi Cyfle Cyfartal	
13.8	Datganiad Preifatrwydd	
13.9	Polisi Rhyddid Gwybodaeth	
13.10	Polisi Recriwtio a Dewi Staff	
13.11	Polisi Terfynu Cyflogaeth	
13.12	Polisi Iaith a Diwylliant	
13.13	Egwyddorion Cymorth Grant	
13.14	Cod Ymddygiad	
14.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR CYLLID A CHYFLOGAETH**	

	Pwyllgor heb gyfarfod. Credir nad oedd angen cyfarfod ar hyn o bryd oherwydd nid oedd materion perthnasol i'w drafod.	
	Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben oddeutu 8 yn yr hwyr o'r gloch.	